# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Ionawr 2018

Amser: 08.30 - 08.42

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

- Ychwanegodd y Llywodraeth ddau ddatganiad at agenda dydd Mawrth:
  - Datganiad gan Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol (45 munud)
  - Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Cod Erlyn Llywodraeth Cymru (45 munud)

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 31 Ionawr 2018 –**

- Dadl gan Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Fynediad at Drafnidiaeth Gyhoeddus ar gyfer Pobl Anabl (60 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei adroddiad ar Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru (60 munud)

## Unrhyw fater arall

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai'n croesawu Mandy Jones, yr Aelod Cynulliad newydd ar gyfer Gogledd Cymru, ar ddechrau Cyfarfod Llawn dydd Mawrth.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried yn y cyfarfod nesaf y cwestiwn ynghylch aelodaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn dilyn ymddiswyddiad Nathan Gill.